

Mwy o wybodaeth am werthuso prosesau

Sut cafodd y prosiect ei gyflwyno? Beth aeth yn dda? Beth allai fod wedi'i wneud yn well? Wrth edrych yn ôl, beth fydddech wedi'i wneud yn wahanol?

Yn bennaf mae gwerthuso prosesau'n ceisio deall y broses o sut mae prosiect wedi ei roi ar waith a'i gyflwyno, ac adnabod ffactorau sydd wedi helpu neu rwystro ei effeithiolrwydd. Gall gwerthuso prosesau greu disgrifiad manwl o ba weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflwyno prosiect, pwy sy'n darparu nhw, ar ba ffurf y maent, sut maent yn cael eu cyflwyno a sut maent yn cael eu profi gan y cyfranogwyr a'r rhai sy'n cyflwyno nhw. Hefyd, mae'n gallu darparu dealltwriaeth fanwl o'r penderfyniadau, dewisiadau a barn dan sylw, sut a pham y cânt eu gwneud a beth sy'n siapio hyn. Fel arfer mae'r broses yn ymwneud â:

- Thrafodaethau gyda'r tîm sy'n ymwneud â rheoli a chyflwyno'r prosiect; yr hyn a weithiodd o'u safbwynt nhw (o bosib eich safbwynt chi)? A'r hyn na weithiodd?
- Arolwg o adborth y rhai sydd wedi cael eu cefnogi. Beth oedd eu barn nhw am y gwasanaeth a dderbyniasant?
- Dadansoddiad o ddata monitro fel y nifer a'r math y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd, gwariant ac yn y blaen.

Mwy o wybodaeth am werthuso deilliannau ac effaith

Pa wahaniaeth a wnaed gan y prosiect? Beth fu'r effaith ar yr unigolion a gefnogwyd?

Mae'r math hwn o werthusiad yn ymwneud â darganfod p'un a yw prosiect wedi peri i ddeiliant neu effaith penodol ddigwydd ai beidio. Mae'r math hwn o werthusiad hefyd yn ceisio amcangyfrif beth fyddai wedi digwydd beth bynnag - hynny yw, yr hyn a fyddai wedi digwydd os nad oedd y prosiect yn bodoli neu os nad oedd y gweithredoedd a gefnogwyd ganddo wedi digwydd.

Mae'r dull a ddefnyddiwyd i ymgymryd â'ch gwerthusiad effaith neu ddeiliant yn dibynnu ar yr adnodd sydd gennych a'r data y gallwch ei gywain. Mae'r math o ddata y gallwch ei gywain, fodd bynnag, yn cynnwys:

Data meintiol: pethau y gallwch eu cyfrif all gael eu defnyddio i fesur newid sydd wedi digwydd. Fel arfer mae angen i'r fath ddata fod ar gael ar gyfer sampl cynrychioliadol o'r bobl neu sefydliadau a gefnogwyd fel y gallwch chi weld beth fu'r newid cyfartalog. Gellir ei gywain trwy ddata monitro neu drwy arolygon.

Data ansoddol: mae hyn yn ymwneud â disgrifio rhywbeth yn fwy na'i fesur. Mae'r math hwn o ddata'n ddefnyddiol gan ei fod yn ceisio helpu deall sut neu pam mae effaith wedi digwydd ond mae hefyd yn cofnodi effeithiau efallai nad yw'n bosib eu mesur yn feintiol. Er enghraifft, sut mae pobl yn teimlo am eu hunain neu am ardal. Mae'r math hwn o ddata'n aml yn cael ei gywain trwy gyfweiliadau manwl gyda phobl neu grwpiau ffocws. Yn aml mae'n cael ei adrodd ar ffurf astudiaeth achos.

Mwy o wybodaeth:

Dyma becyn cymorth mesur effaith defnyddiol:

https://mooreks.co.uk/upload/pdf/ImpactToolkit2013_updated_FINAL_1.pdf

A dyma un arall: <https://www.thinknpc.org/resource-hub/npcs-four-pillar-approach/>

Mwy o ddarllen defnyddiol:

<https://www.gov.uk/government/publications/evaluation-in-health-and-well-being-overview/outcome-evaluation>

https://www.betterevaluation.org/en/themes/impact_evaluation

Mwy o wybodaeth am werthuso economaidd

Aiff gwerthusiadau economaidd gam ymhellach na gwerthusiadau effaith trwy ofyn a yw'r deilliannau/effaith a grëwyd yn cyfiawnhau'r gost. Dyma ganllaw i gynnal gwerthusiad economaidd sy'n helpu sefydliadau a'u harianwyr i gymharu gwerth yr effaith a grëwyd â chost creu'r effaith honno. <https://www.thinknpc.org/resource-hub/economic-analysis-what-is-it-good-for/>